

Cofnodion cyfarfod gyda Chyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg

Dyddiad	Dydd Mercher 6 Tachwedd 2024
Amser	14:00
Math	Wyneb yn wyneb

Presenoldeb		
Enw	Llythrennau cyntaf yr enw	Teitl
Tim Britton	TB	Pennaeth Cyflawniad ar gyfer Ysgolion Cynradd
Sarah Nicholls	SN	Swyddog Prosiect Cynorthwyol yr 21 ^{ain} Ganrif
Wendy Blyth	WB	Pennaeth Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg
Mr Lloyd	ML	Dirprwy Bennaeth Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg
Dd/B	Dd/B	Cyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg

1. Croeso a Chyflwyniadau

Cyflwynodd y swyddogion a oedd yn bresennol eu hunain i aelodau'r Cyngor Ysgol a diolchwyd iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cyflwynodd y Cyngor Ysgol eu hunain.

2. Trosolwg o'r Ymgynghoriad

Cafwyd cyflwyniad gan Gyngor Ysgol, Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg, i'r swyddogion a oedd yn bresennol a oedd yn disgrifio'r cyfleoedd a gawson nhw yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg, yr hyn y maen nhw'n ei hoffi am Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg, a'u pryderon am y posibilrwydd o gau Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg. Mae Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg wedi darparu copi o'r cyflwyniad.

3. Cwestiynau'r Cyngor Ysgol

Gwahoddwyd Cyngor Ysgol Gynradd Tref y Rhyg i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau. Mae'r sylwadau a wnaed yn cael eu crynhoi yn y tabl sy'n dilyn.

Rhif	Cwestiwn/Sylw
1.	Mae Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn ofod diogel i ddisgyblion.
2.	Mae cymuned glos yn Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg rhwng aelodau o staff, disgyblion a rhieni/gwarcheidwaid.
3.	Mae'r athrawon wedi helpu llawer gyda fy sgiliau darllen ac yn rhoi cymorth i'r rhai a all ei chael hi'n anodd.
4.	Rydw i'n poeni y bydd y perthnasoedd yn y gymuned yn cael eu colli os bydd y cynnig yma'n mynd rhagddo.
5.	Bydd yn gyfnod ansicr i'r plant iau symud ysgol.
6.	Bydd yn galed ac yn drist i'r disgyblion iau (Meithrin) gan eu bod newydd symud i Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg.
7.	Mae'n cymryd 45 munud i gerdded i Ysgol Gymuned Tonyrefail. Bydd hyn yn anodd i bobl os nad oes gyda nhw gar neu os nad oes modd iddyn nhw deithio ar y bws. Bydd yn anodd gwneud hyn sawl gwaith y dydd (ac ar

	gyfer gweithgareddau ar ôl ysgol). Bydd y daith gerdded yn anodd i ddisgyblion iau.
8.	Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yw'r ysgol rydw i'n perthyn iddi – rydw i'n teimlo'n ddiogel yma.
9.	Ychydig iawn o bobl sy'n gallu fforddio dal y bws.
10.	Rydw i'n gobeithio na fydd Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn cau. Rydw i'n hoffi'r gofod awyr agored sydd gyda ni yma.
11.	Mae gyda ni berthynas dda yma, gyda chefnogaeth a chyfeillgarwch da. Efallai na fydd bod mewn dosbarthiadau mwy yn gweithio i ni.
12.	Rydw i'n poeni pa gefnogaeth fydd ar gael yn Ysgol Gymuned Tonyrefail i helpu gyda phethau megis ein sgiliau darllen.
13.	Mae Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn lle diogel i oedolion hefyd. Mae rhieni/gwarcheidwaid yn gwybod bod modd iddyn nhw siarad â'r aelodau o staff os oes rhywbeth o'i le.
14.	Mae Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg wedi helpu llawer gyda fy sgiliau darllen a Saesneg ar ôl i mi symud yma o wlad wahanol.
15.	Rydw i'n teimlo'n ddiogel ac yn hapus trwy gydol y dydd. Mae'r athrawon yma yn gwneud i mi deimlo'n hapus.
16.	Rydyn ni'n ysgol fach ond nerthol.
17.	Gobeithio y bydd modd i ni gadw Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg ar agor.
18.	Fe wnes i gwrdd â'r rhan fwyaf o'm ffrindiau yma ac rwy'n gobeithio y bydd Ysgol Gynradd Tref-y-Rhyg yn aros ar agor.

4. Ymgysylltiad Disgyblion – 'Ymarfer 'Dweud Eich Dweud'

Fel rhan o'r ymarfer ymgysylltu gyda disgyblion Ysgol Gynradd Tref y Rhyg, cafodd pob disgybl gyfle i 'ddweud eu dweud'. Rhoddwyd sticeri a nodiadau ôl-TG i'r disgyblion. Gofynnwyd iddynt ddewis sticer a oedd yn cynrychioli sut roeddent yn teimlo am y cynnig neu ysgrifennu eu sylwadau a'u barn, mewn perthynas â'r cynnig. Mae'r tabl dilynol yn amlinellu'r ymatebion a dderbyniwyd gan ddisgyblion o'r ymarfer gan ddefnyddio sticeri.

5. Sylwadau i Gloi

Hysbyswyd Cyngor yr Ysgol y byddai cyfle dros yr wythnosau nesaf iddyn nhw fyfyrion ar y cwestiynau ac ymatebion a chyflwyno cwestiynau ychwanegol lle bo angen.

Mae aelodau Cyngor yr Ysgol wedi cael eu hannog i gymryd rhan drwy lenwi'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig at CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk.

Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:25.

6. Nodyn Cyfarfod Ôl

Ymgysylltodd disgyblion Tref y Rhyg yn llawn â'r broses ymgynghori ac ar ôl cwblhau'r cyfnod ymgynghori casglwyd holl sylwadau'r disgyblion a'r holl adborth. Bydd y rhain i gyd yn cael eu rhannu gyda'r Cabinet cyn gwneud penderfyniad ar y cynnig.

Hoffem ddiolch yn ddiffuant i'r holl ddisgyblion am eu gwaith caled yn cynhyrchu'r holl wybodaeth werthfawr hon.